'Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1882. [RHIF 14.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Ychydig eiriau yn nghylch Undodiaeth	313
Emynau	314
Y Llith Od	317
Duw, nid ofn, ond cariad, yw	318
Beth ddylai y Menywod wneuthur?..	321
Yr arferiad o oedi	322
Pa fodd y gellir gwneyd dwy garreg yn un	325
Yr Eglwys ac Annghydffurfiaeth	327
Yr Aifft	329
Y dyn o gyfoeth	330
Ysprydoliaeth	331
Dewiswch yn ddoeth	333
Dysgu Merched i weithio	334
Manion a Hanesion...	334
Marwgofion	335
Barddoniaeth	336

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] HYDREF, 1882. [RHIF. 14.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

YCHYDIG EIRIAU YN NGHYLCH UNDODIAETH.

UNDODIAETH ydyw bywyd ac addysgiadau Iesu Grist wedi eu cymmeryd allan o'r pedair Efengyl, ac wedi eu diosg yn llwyr oddiwrth yr holl gyfeiliornadau a'r llygredigaethau y mae rheswm a hanes yn ddangos sydd wedi ymgasglu o'u hamgylch oddiar pan eu rhoddwyd i'r byd. Undodiaeth yw y ffydd fwyaf rhesymol o bob ffydd, a'r mwyaf addasedig i wella y byd yn foesol a chrefyddol.

Y mae yr amgyffrediad uchel y mae yn ddal am Dduw y puraf a'r mwyaf dealladwy, ac mewn undeb neu gydgordiad ag eiddo Iesu Grist yr hwn a siaradodd am Dduw fel "Ein Tad." Y mae mor syml ac mor rhesymol fel y gall y mwyaf anwybodus yn gystal a'r mwyaf dysgedig ei deall a'i gwerthfawrogi. Y mae yn rhydd oddiwrth bob coelgrefydd a'r nodweddau llygredig a dirgelaidd hyny y fath ag a gawn yn nysgeidiaeth neu addysgiadau Eglwys Loegr, ac Eglwysi uniongred ereill. Nid yw wedi cael ei dyrysu a'i chymmysgu a'i thywyllu gan athrawiaeth o Drindod, *neu dri Duw mewn un*, tybiaeth arddansoddawl nad yw i'w chael yn yr Efengylau, ond a ffurfiwyd gan yr hen philosophyddion cenedlig, ac a ddygwyd yn foreu i mewn i Gristnogaeth, yn yr hon y tuedda i dywyllu a dystrywio addysgiadau pur, syml, a rhesymol Crist, yr hwn ddywedodd: "Clyw, o Israel, yr Arglwydd Ein Duw un Arglwydd yw."

Y mae Undodiaeth yn dysgu mai dyledswydd pob bod dynol yw ceisio yr iechydwriaeth gynnygiedig i bawb gan Iesu Grist; yr hyn yw ymwrthod â phob pechod, pob awydd isel cnawdol a daearol, ac i ymdrechu, yn ol esiampl Crist a chyda chymhorth yr Yspryd Santaidd, i ddyfod yn berffaith, fel y mae Ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith.

Y mae Undodiaeth yn dysgu mai bod yn Gristion yn ol delw ac esiampl Crist yw bod yn onest yn ein holl ymdrafodaeth gyda ein cyd-

greaduriaid, i fod yn ffyddlon i gydwybod, ac i fyw i fyny i'r hyn y mae Duw yn osod yn mhob enaid dynol, ac i omedd ymddiried yn unrhyw lyfrau neillduol, neu ddynion, neu Eglwysi, neu gredöau, neu bethau allanol.

Y mae Undodiaeth yn dysgu yr angenrheidrwydd o wasanaeth rheolaidd, defosiynol a santaidd i Dduw bob amser, a'r buddioldeb, a'r cynnorthwy ysprydol sydd gyssylltiedig â mynychu lle o addoliad, nid yn unig i'r pwrpas o'n haddasu i'r nefoedd ond i'n galluogi i fyw yn dduwiol yma ar y ddaear. Y mae Undodiaeth yn galw ar bawb dynion i lynu yn dyn wrth y gwirionedd; i beidio cywilyddio oblegyd eu daliadau os byddant yn rhai cydwybodol a theilwng, er y gall y byd chwerthin neu hyd y nod erlid, ond i wasanaethu Duw a glynu yn gyson wrth y grefydd Gristnogol yn yspryd Iesu Grist.

Y mae Undodiaeth yn dal mai y ddyledswydd orphwysedig ar bob dyn, neu bob canlynwr i Iesu Grist yw helpu, trwy ei ddysgeidiaeth a'i esiampl, i symmud ymaith ac i ddiddymu holl gyfeiliornadau athrawiaethol, cam-amgyffrediadau o'r gwirionedd, arferiadau drwg, a thwyll masnachol o blith dynion, fel y byddo i weddi Crist ac awydd a dymuniad y cyfiawn, "Deled dy deyrnas," i gael ei sylweddoli.

Y mae Undodiaeth yn galw ar bawb gweinidogion yr Efengyl a phawb dysgawdwyr crefyddol i osod o'r neilldu am byth yr athrawiaethau dirgelaidd a difywyd hyny y rhai nad ydynt yn gwneyd dim ond gwahanu, neu yn rhanu y byd Cristnogol i ddosparthiadau gweinion a dibwrpas da; ac i bregethu yn wrol a chydag ymddiried yn y gwirionedd fel y mae yn cael ei ddatguddio i'w meddyliau eu hunain, a'i osod allan yn addysgiadau yr Iesu fel y maent ar lawr yn yr Efengylau, fel y byddo i ddynolryw gael eu harwain at ffyrdd cyfiawnder.

O.

EMYNAU.

Tuedd cynnefindra arwynebol ag unrhyw beth yw dallu dyn rhag mawredd a daioni y peth hwnw. Braidd y gwnawn ganfod daioni a mawredd y dyn a fo wedi ei eni a'i fagu ger ein bronau. Ystyriwn, fel rheol, olygfa hyfryd mewn natur, gwaith celfyddyd prydferth neu wrthddrychau hynafiaethol *interesting* a fo gerllaw ein cartref fel islaw ein sylw. Rhyw lyfr ag oedd yn adnabyddus i ni pan yn blant a gyfrifwn fel yn gyffredin, a thrwy hyny fel bron yn ddiwerth. Felly hefyd y mae hi mewn perthynas i Emynau; o herwydd eu bod yn cael eu dwyn ger ein bronau mor aml—Sul ar ol Sul, yr ydym wedi myned i gredu nad ydynt deilwng o ddim ond i'w canu yn gyhoeddus yn y capel. Dichon fod hyny yn fwy nag a deilynga rhai Emynau; ond credwn fod Emynau da yn deilwng o'n myfyrdod mwyaf dwys ag o'u defnyddio yn helaethach nag y cânt yn bresenol.

Ystyria Professor Newman fod trysori Emynau da ar gof gyda'r cynnorthwy goreu a fedr dyn gael er cynnydd ysprydol a dyddanwch yn ngwyneb siomedigaethau bywyd. Amlwg hefyd fod Paul yn prisio y cyfryw yn uchel pan yn cynghori y Colossiaid a'r Ephesiaid i "ddysgu a rhybuddio bawb eu gilydd mewn Salmau a hymnau ac odlau ysprydol." Yn wir mae pawb ag sydd wedi bod am ychydig amser yn ymyl gwely claf yn teimlo fod Emynau yn ffynnonell o gysur i ddyn yn y tymhorau hyny ag y mae efe mewn angen o gysur fwyaf. Mynych y clywwn rai mewn cystudd yn difyru eu hunain ac yn sugno nerth a chysur trwy sisial ryw Emynau melus a chysurlawn, megys :—

"Mae'n fynych gwmmwl dros fy myd, a gwawr anhyfryd iddo;
Er dyfned y tywyllwch du, mae Duw'n fy nerthu drwyddo.
Mae'r nos yn ffoi, daw etto'r dydd, a gwawl o newydd imi;
Caf weled oll yn cymhell cân, mae'r cyfan er daioni."—161.

"Ar for tymhestlog teithio'r wyf i fyd sydd well i fyw,
Gan wenu ar ei stormydd oll—fy Nhad sydd wrth y llyw."—156.

"Duw doeth nid all, Duw da ni wna un cam;
Fe ddengys ei holl lwybrau yn ddinam.

Ymgrymaf mwy, dan holl flinderau'r llawr,
I'r hwn sy'n eistedd byth yn Frenin Mawr:
Ni flinodd neb o'i fodd er dechreu'r byd;
Mae'n dwyn ei blant o'u poen i'r Ganaan glyd.

Ewyllys Ion a gaffo mwy fy nghlod;
Pan ddelo drwg, pan fyddo da heb ddod,
Fy nghân gaiff fod, yr Arglwydd Ef sydd Dduw,
Rhued y storm, fy Nhad sydd wrth y llyw."—9.

Ac nid yn unig fe fedr Emynau fod yn ffynnonell o ddyddanwch i ddyn, ond hefyd fe wnant ddylanwadu er gwell ar ei gymmeriad. Pwy all amheu nad yw bywyd dyn yn rhagorach o lanw ei gof ag Emynau fel yma ?—

"Dod imi'n fendith, fy Nuw Mawr,
Bob rhan o'r byd lle 'rwyf yn awr,
Yn nes at ffyrdd dy 'wyllys di;
Yn well ryw faint o'm hachos i."—139.

"Yn nes, fy Nuw, i ti, yn nes i ti!
Pe byddai ddim ond croes a'm codai i;
Bydd fyth fy nghân i mi—
Yn nes, fy Nuw, i ti, yn nes i ti."—146.

"Yn wastad gyda Duw, fy Nhad! boed hyn i mi,
A gad im' yma hefyd fyw yn agos atat Ti."—181.

Ymddengys i ni hefyd y gallai ein pobl ieuainc gael llawer o *help* mewn Emynau er cymmeryd rhan mewn cyfarfodydd gweddi a'r cyffelyb. Mae'n achwyniad cyffredin fod yr Undodiaid yn ddiffygiol iawn mewn cynnal cyrddau gweddi; credwn na fuasai hi felly pe bae ein haelodau wedi myfyrio, pan yn ieuanc, y rhanau defosiynol o'r Beibl ac Emynau da. Os da ydym yn cofio, dywed Mr. Spurgeon

mae'r cymhorth goreu at hyn yw myfyrio'r Beibl—at hyn ychwanegwn, Emynau da. Yn wir, beth allasem ddymuno yn well mewn gweddi? nâ bod y byd yma "yn well ryw faint o'n hachos ni," ac ein bod yn cael ein dwyn "Yn nes" o hyd i Dduw—yn nes i Dduw hyd y nod drwy ein poenau, ein siomedigaethau a'n croesau, ac ein bod "Yn wastad gyda Duw."

Cynnwysa ein Hemynau hefyd y ddysgeidiaeth oreu a feddwn ar y pynciau mwyaf dyddorol i bob dyn. Cymmerwn, er enghraifft, y darnau yma am Dduw:—

"Peth ofer iawn yw ceisio dadgan
Dyfnderoedd maith bodoldeb Duw;
I'w olrhain Ef a'i chwilio allan
Holl ymgais dyn ynfydrwydd yw;
Pa faint ei nerth, maint mawr ei gariad,
Pa ddyn a'i edrydd! Yn mha iaith?
Y bydoedd oll yn un eu bwriad
Dim, dim eu nerth, llwyr ddim eu gwaith.

Er hyn, yn nghiliau'r galon dduwiol,
Diamheu teimlir Ef mewn rhan;
Mae'r anchwiliadwy Mawr, Anfeidrol,
I'r doeth yn amlwg yn mhob man."—1.

"Mae Duw yn llon'd pob lle, presenol yn mhob man;
Y nesaf yw Efe o bawb at enaid gwan."—140.

"Ein Tad yw Ef, pawb iddo'n blant.

Nis gallwn ddywedyd dim yn well am Dduw nâ hyna—sef ei fod Ef yn mhell uwchlaw gallu'r meddwl dynol i'w amgyffred, ond er hyny yn hawdd i'w ganfod yn mhob rhan o'r greadigaeth, yn enwedig yn nheimlad y gydwybod, ac etto ei fod Ef, er mor fawr, yn Dad i bawb o honom.

Mae'n amlwg fod yn ein hemynau goreu lewndid o gyfoeth Ysprydol. Carem wel'd rhieni ac Athrawon Ysgolion Sul yn annog plant a phobl ieuainc i'w trysori hwynt ar gof a'u myfyrio. Dysgir llawer o ddarnau diwerth a gwaeth nâ diwerth weithiau erbyn ein cyfarfodydd llenyddol; buasai dysgu Emynau erbyn amgylchiadau o'r fath yn llawer mwy llesiol os nid mwy dyddorol hefyd. Dichon y ca rhai fwy o bleser wrth glywed a dysgu darnau *ysgafn*, ond dylid cofio mai nid llawenydd yw prif amcan bywyd a bod trysori ar gof yn waith pwysig, gan fod yr hyn a ddysgir felly yn effeithio yn helaeth ar ein cymmeriad—pob peth isel yn darostwng dyn, ond pob peth da, megys Emynau, yn codi dyn i fyny. W. P.

HENAINT.

Henaint a ddaw fel hoenyn
A'i dwyll i efryddu dyn,
Ei freichiau fel ffustiau ffyn
A gwayw yn mhob gewyn.
Ei ddanedd, o salwedd son,
Affuniaidd yn felynion
A'i olwg ddiwg ddeall,
Druan o ddyn, a dry'n ddall.—*D. ab Gwilym.*

Y LLITH OD.

"Cynnelw yn cinyn gan Cadechyn."

Yr wyf yn ysgrifenu y Llith hwn yn benaf at y bobl *ieuainc* ydynt mor gall a rhagddarbodus ar gyfer eu gauaf meddyliol, â darllen yr Ymofynydd. Mwy nâ 30 mlynedd yn ol, Cymreigiais a ganlyn (allan o'r *Family Herald*) i ffrynd i'w gosod o flaen rheolau cymdeithas fuddiol o Merthyr, a chan yr ystyriaf hwynt yn cyfateb i bawb a ymofynant am oleuni eneidiol, gosodaf hwynt yma,—"Mae Natur yn ein dysgu ein bod oll yn ymddibynol: yr ydym megys olwynion deintiog yn gwthio un y llall yn mlaen trwy lenwi diffygion ein gilydd." Fy mhlant anwyl i, darllenwch, ïe, ystyriwch ac *ystyriwch* y geiriau yna drosodd a throsodd, yn ddwys a difrifol, nes y byddoch yn eu deall ac yn teimlo yn awyddus i wthio rhywun o'ch cydnabod yn mlaen, ac yn eich tro i gymmeryd eich gwthio eich hun gan rywun arall, trwy gyflenwi yn garedig a hawddgar ddiffygion un y llall. Pan weloch ddall, cloff, byddar, crwca, neu garpiog, yn hytrach nâ'u gwawdio a'u diystyru, byddwch barod i'w helpu, gwnewch a alloch i fantellu eu diffygion a lleddfu eu blinder, fel y gallont gydfwynhau a chydchwareu â chwi ar chwareufwrdd bywyd. Mae un wns o serchogrwydd a chydymdeimlad tyner, trugarog ac ymarferol yn fwy o wir werth nâ thynell o broffes wag a sythlyd. Flynyddau lawer yn ol yr oedd tri chyfoed, o'r enw William, Llewelyn, a Dafydd, yn cyd-deithio: yr oedd yr olaf wedi ei anafu ac yn gystuddiol, ac fel hyny, dipyn yn drafferthus yn cerdded, ac meddai Llewelyn yn hawddgar a chyddeimladol "sut wyt ti, Dafydd, yn dod? A ydym ni yn myned yn rhy heinif i ti?" Cyn i Dafydd gael amser i ateb, dywedai William, "Mae yn dod o'r goreu gystal â ninau, pwy daro sydd arno?" Yr oedd sylw *cyntaf* William yn debyg i wir, ond yr ail dipyn yn *anystyriol*, yr oedd Dafydd gydochr â hwynt, ond nid oedd William ffraeth na Llewelyn dosturiol yn gwybod dim am y blinder oedd yn ei deimlo wrth ymdrechu cydgerdded â hwynt, er ei fod yn mhell o ddysgwyl iddynt hwy ei gario. Yr oedd Llewelyn yn dangos llawer mwy o gariad a thynerwch yn ei ofyniad tosturiol nâ William. 'Nawr, yr hyn a ddymunwn i ei argraffu ar feddyliau yr ieuainc yw hyn, ar iddynt bob amser i ofalu siarad â'u gilydd yn barchus, caredig, a theimladwy, yn lle yn swrth a diystyrllyd, gan gofio fod y llwm a diran o'r un gwaed ac yn agored i'r unrhyw deimladau dynol â'r trwsiadus cyfoethog. Nid yw gair neu sylw caredig yn myned yn annghof byth: ac y mae sut beth ag i ddyn swrth, diserch, i glwyfo a dolurio teimladau ei gymmrawd, i raddau tost iawn trwy ddiserchrwydd oerllyd, a sylwadau anngharedig,—

Gair traws, neu anngharedig,
I'r galon glaf, ddrylliedig,
Enhudda'i glwys adnoddau glân,
Fel deifiol dân gwenwynig.

Gair mwynaidd, llon, dymunol,
Yw seren cariad, siriol,
Y gofid dawdd, gan ddystaw ddwyn
I'r galon swyn byth-fywiol.

Ymwneyd yn weithredol, gyda chydymdeimlad serchog a hawddgar,—gyda thynerwch tosturus â'r anafedig, y claf a'r trallodus blin, y tlawd yr un fath â'r arianog, ydyw ymlwybro ar hyd blodeuog briffordd Cariad tua y Wynfa fythol. Beth bynag fo, peidier, ar unrhyw bryd, a bod yn rhy chwanog i chwilena ac i erlid un y llall, byddwn yn fwy parod i fantellu nâ dynoethi gwendidau a ffaeleddau ein gilydd, gan gofio nad trwy ddannod bylchau dannedd eu gilydd, eithr wrth *lanw* diffygion eu gilydd y mae y *cog-wheels* yn gwthio un y llall yn mlaen. Gyda golwg ar glera a goganu y mae bardd teuluol Sion Llwyd yn dweyd fel hyn,—

Oganydd brwnt, pwy gonach—a wnai di,
Enaid hurt dan geintach?
Ni ddaw y dall yn gallach,
A'i ble croes, wrth bilo crach.

Nant Ddu. Sion Llwyd.

DUW, NID OFN, OND CARIAD, YW.

Mae'r Eglwysi Cristnogol am bymtheg cant o flynyddau o leiaf wedi tynu eu dylanwad mwyaf oddiwrth ofn Duw—ofn Duw fel y Barnwr diweddaf a Dialydd am bechod. Yr oedd yr holl gariad oedd ganddynt i'w roddi yn cael ei gyflwyno i Iesu Grist. Edrychasent ar Dduw'r Tad fel un llym a dialeddol. Iesu Grist oedd y galon dyner yn mynwes y Drindod. Efe yw'r un anwyl, tosturiol, cydymdeimladol, yr eiriolwr taer a chyfaill anwyl dynoliaeth.

Nid yw'n bosibl i ddyn garu'r fath Dduw ag oedd Calfin, Jonathan Edwards, a'r tadau Puritanaidd yn osod allan. Fe allwn ac mae'n rhaid i ni idd ei ofni: ond am garu Duw a fedrai daflu pob baban i golledigaeth dragwyddol am bechod Adda, ac a fedrai daflu i lyn o dân naw o bob deg o'r hil ddynol, ac a fedrai balmantu gwaelod uffern â phenau babanod heb eu bedyddio, mae'n llwyr anmhosibl i ni garu Duw o'r fath yna. Yn y fel yma am ganrifoedd yr unig berson yn y Duwdod y medrai dyn ei garu oedd Iesu Grist. Mae genym hefyd un bai pwysig ar dduwinyddiaeth yr oes bresenol, sef, ei bod yn gosod Duw allan fel Bod Annhrugarog, tra y gosodir Iesu Grist allan ganddi fel un hollol wahanol, i'r hwn, gan hyny, ac nid i Dduw, y mae diolch, cariad, ac ymddiried dynolryw yn ddyledus.

Etto, trwy amrywiol fathau o ddylanwadau rhydd a rhesymol, y mae ofn slafaidd o Dduw'n cael ei symmud o'n meddyliau. Hyd y nod yn yr Eglwysi Iawnffyddol mae y meddwl am Dduw wedi cyf-

newid yn fawr yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf. Paham nad ydym yn ofni Duw yr un fath ag y byddai ein cyn-deidau yn gwneyd? Nis gall fod hyn am ei fod Ef wedi cyfnewid. Mae'n rhaid mai dyn sydd wedi cyfnewid a pheth yw'r achos o'r cyfnewidiad? Y rheswm yw fod dyn wedi cynnyddu'n ddirfawr yn ystod y ganrif bresenol yn ei wybodaeth o ddeddf. Yn ei waith yn chwilio allan ddirgelion natur, mae yn cyfarfod â Duw wyneb yn wyneb yn ei weithdy—y byd. Yr ydym wedi cael allan mai anwybodaeth yw mamaeth ofn; y fynyd y byddom yn dechreu gollwng i fewn oleuni gwybodaeth, mae ofn, fel ystlumod, yn ffoi.

Bu anwariaid am oesau'n ofni Duw am eu bod yn anwybodus gyda golwg arno. Mae'r anwariad fel plentyn mewn ystafell dywell—yn cael ei ddychrynu gan y swn lleiaf. Nid yw'n gwybod braidd ddim am ddeddfau natur. Mae pob damwain anarferol yn ol ei feddwl yn cael ei hachosi gan yr Yspryd Mawr mewn nwyd, a dyga ei aberthau idd ei heddychu. Mae pob peth iddo ef yn cael ei amgylchu gan dywyllwch.

Ond yr ydym yn dechreu dysgu meistroli galluoedd natur a'u rheoli i fod o wasanaeth i ddyn. Nid ydym yn ffoi rhag yr haint, fel pe byddai yn fflangell Duw digllawn, ond yr ydym yn myfyrio deddfau iechyd, ac yn ceisio amddiffyn ein hunain rhagddo. Yr ydym yn galw ar y naill i wneyd negesau drosom, ac nid ydym yn galw'n ofer. Yr ydym wedi dal y gwyntoedd ac wedi eu gorfodi i droi ein melinau ac i yru ein llongau. Yr ydym wedi ffrwyno y tân ac wedi ei orfodi yntau i lusgo ein *trains* o ddinas i ddinas. Yr ydym wedi gwneyd gerddi o anialdiroedd. Yn lle bod yn gaethion i alluoedd natur, y rhai oeddynt unwaith yn foddion i ddychrynu dyn a pheri iddo yn slafaidd i ofni Duw. Y mae dyn bellach wedi dysgu faint yw ei nerth ei hun ac wedi gallu rheoli galluoedd natur.

Gwybodaeth a gwybodaeth yn unig sydd wedi alltudio ofn, ac oni wnaiff yr un wybodaeth hefyd gynnyrchu cariad? Yr ydym yn credu y gwnaiff. Yr ydym yn credu yn gymmaint ag fod ofn yn ffrwyth anwybodaeth dyn, y gwna gwybodaeth gynnyrchu crefydd o ymddiried, o obaith, a chariad brwdfrydig. Os y gwnaeth dyn addoli mewn ffydd ddall pan nad oedd yn *gwybod*, oni wna efe addoli'n fwy pan fyddo'n gweled Duw yn holl ardderchogrwydd ei weithrediad galluog. Gall ffurf ei addoliad gyfnewid, ond gwna ei sylwedd aros yn sier a digyfnewid. Yn lle bod gwybodaeth yn gwanychu crefydd, gwna ei nerthu. Yr ydym yn edrych yn y blaen ar yr amser pan fyddo dyn yn caru Duw â'i holl galon, a phan byddo crediniaeth yn nghariad Duw yn rhoddi bywyd newydd i gymdeithas.

Nid ydym yn credu ac nis gallwn gredu mai pa fwyaf fyddom yn wybod am Dduw natur mai lleiaf i gyd fyddwn ni yn garu o'r Duw yna. Os yw y sêr yn hardd yn ngolwg yr anwariad, yr hwn a'u hystyria yn gyfnifer o berlau bychain yn y nefoedd fry, pa faint yn fwy hardd, pa faint yn fwy arwyddol o Allu Anfeidrol? Pa faint yn fwy addas idd ein hysprydoli a'n llanw ag yspryd addoliadol, a pharch, a diolchgarwch, ac ymddiried ynddynt hwy, pan y dysgom fod y goleu-

adau bychain yma yn heuliau mawreddog, filiynau o filldiroedd oddiwrthym, a phob un o honynt efallai yn ganolbwynt llu o fydoedd ereill, a phob un o'r bydoedd hyny, o bosibl, yn cael eu preswylio gan filiynau o greaduriaid byw! A ydyw y meddwl mawreddog yna yn dystrywio ein cariad at Dduw? Onid yw'n hytrach yn enyn oddifewn i ni *barchedig* ofn. A ydym yn peidio caru Duw o herwydd ein bod wedi cael allan na chafodd y byd yma ei wneyd mewn chwech o ddyddiau byrion, ond fod Duw wedi bod yn ei ffurfio am filoedd o flynyddau ac nad yw Seithfed Dydd y gorphwys wedi dod etto? A ydym yn clywed ein cariad yn oeri pan yr ydym yn dysgu nad yw dyn wedi syrthio o gyflwr o berffeithrwydd, ac nad yw o dan farn condemniad am bechod Adda, ond ei fod wedi ei greu yn greadur anmherffaith, a'i fod yn myned yn y blaen at berffeithrwydd, gyda deddf cynydd tragywyddol yn ysgrifenedig ar ei dalcen? Pa fwyaf fyddom ni yn wybod am Dduw natur, mwy ydym yn gael i ychwanegu ein syndod, ac i ddadblygu ein parch a'n cariad ato. Pa fwyaf fyddom yn olrhain o ddeddfau natur, mwyaf ydym yn gael i'n dysgu i garu y Deddfroddwr mawr. Yr ydym yn cael deddf yn mhob man, ac y mae cariad yn mhob man yn gydwauedig â hi. Mae pob myfyrdod ag sydd yn ein dwyn i gydymdeimlad dyfnach â natur yn ein dwyn ni hefyd i gymmundeb agosach â Duw. Yr ydym yn llawenhau gan hyny yn yr oll mae gwybodaeth wedi wneyd i agor i ni Feibl natur. Trwy natur yr ydym yn gweled pa fodd mae Duw, drwy oesau dirif, wedi bod yn arwain dyn drwy wahanol gyfnodau o wareiddiad i wareiddiad y dydd presnol. Mae Ef wedi arwain dyn â cholofn o niwl y dydd a cholofn o dân y nos allan o gaethiwed gwaeth nâ chaethiwed yr Aifft; caethiwed anwybodaeth, coelgrefydd, ac ofn, i wledydd gwasg rydd, llywodraeth rydd, crefydd rydd, a dynion rhyddion. Ein gwaith ni yw adeiladu, yn ein calonau, ac yn ein gwlad, grefydd mor rhydd ag yw ein gwlad yn rhydd; crefydd ag sydd yn bwrw allan ofn; crefydd resymol, ag fyddo yn alltudio coelgrefydd; crefydd fyddo'n mesur dynion nid wrth eu credo, ond wrth eu bywydau; crefydd ffydd a gweithredoedd da law yn llaw. Daw crefydd o'r fath, a chynnyrcha well dynion. Gwawried y boreu hwn yn fuan.

U. H.

Mae yr Annibynwr enwog, y Parch. Edward White, yn dywedyd nad oes dim yn y byd yn fwy o bwys nâ gonestrwydd meddwl ac enaid yn yr Ysgol Sul. Tybia efe nad yw yn bosibl y gall un plentyn iachus ganu yn onest eiriau fel y rhai hyn, "I want to be an angel, and with the angels stand." Nid yw plant felly mewn un awydd am farw.

Un o'r pethau mwyaf tarawiadol yn Esponiad newydd Edwards, Deon Bangor, ar Efengyl Matthew yw yr haerllugrwydd digywilydd gyda pha un y mae yn amddiffyn ei Eglwys ei hun ac yn ymosod ar Annghydffurfwyr.

BETH DDYLAI Y MENYWOD WNEUTHUR?

Mr. Golygydd,—Os bernwch y llinellau canlynol yn addas i'r Ymofynydd, wele hwynt at eich gwasanaeth. Teimlais wrth gael ar ddeall fod Ap Ioan yn defnyddio fy enw mewn rhifyn diweddar, o leiaf cymhwysais rai o'r *initials* a ddefnyddiodd at fy enw fy hun; a chan fy mod bob amser, hyd y gallaf, yn barod i ufuddhau a gwneyd yr hyn a allwyf o blaid rhinwedd a daioni, meddyliais y gwnawn ufuddhau iddo yntau y tro hwn; ond y peth gwaethaf yw fy mod yn teimlo fy hunan yn anaddas iawn i barotoi ar gyfer y wasg. Yr wyf yn perthyn i gymdeithas ag sydd mewn arferiad o gael *debate* yn awr ac eilwaith, a thua blwyddyn yn ol cynnygiodd un o'r brodyr i fod yn destyn, "A ydyw yn addas i'r rhyw fenywaidd lefaru yn gyhoeddus neu nad yw." Aeth yn ddadl boeth iawn, pob un yn dwyn y profion goreu y gallai dros yr hyn a lefarai. Nid wyf yn cofio i mi fod erioed yn un lle â mwy o fywyd ynddo nâ'r adeg hono. Fodd bynag, aeth yn ormod temtasiwn i minau fod yn ddystaw, safais i fyny, ac fel y gellweh ddysgwyl yr oeddwn i o'r farn ei bod hi'n hollol addas, ond nid ar draul esgeuluso eu gorchwylion teuluaidd, na chwaith i fod yn ben ar y rhyw wrrywaidd, ond cydweithio. Un o'r profion a ddygais dros hyny oedd fod Duw wedi ein donio â galluoedd, wedi rhoddi talentau mwy neu lai i bob un o honom, ac mai ni ein hunain ac nid neb arall fydd yn gyfrifol iddo Ef etto am y defnydd ydym yn wneuthur o honynt; a chan fod rhanau o wasanaeth y Gymdeithas yn cael eu cyflawnu yn fynych gan y rhyw fenywaidd, a dichon o bosibl ar ryw adeg fod rhan bwysig o'r addoliad wedi cael ei ddwyn yn mlaen genym, a hyny yn absenoldeb y brodyr galluog. Apeliais at y gynnulleidfa pa un gwell ydyw gwasanaeth menyw neu fod heb wasanaeth o gwbl; ond nid oedd rhaid aros yn hir am atebiad. Mae'n wir fod yr Apostol Paul wedi dweyd, "Tawed y gwragedd yn yr eglwysi." Mae'n wir hefyd fod yr un Apostol wedi dweyd, "Yr ydwyf yn dymuno arnat tithau, fy ngwir gymhar, cymhorth y gwragedd hyny y rhai yn yr efengyl a gyd lafuriasant â mi;" ac mae genym hanesiaeth Ysgrythyrol am lawer o wragedd cyhoeddus yn mhob modd, a merched yn proffwydo. Yr oedd pedair o'r cyfryw gan Phylip yr efengylwr (un o'r saith diacon). Mae genym hanes am foneddigesau a'u henwau'n perarogli o herwydd eu hymdrechion cyhoeddus; dyna Miss Mary Carpenter; Miss Harriet Martineau; Mrs. Gaskell; Mrs. Barbauld; Frederika Bremer, ac ereill, maent, er wedi marw, yn llefaru etto, ac mae llawer yn bresenol yn "ymdrechu ymdrech deg," ond nid ydynt ond nifer fechan iawn mewn cymhariaeth i'r rhai hyny o honom ag ydym yn ymfoddloni ar wneyd ond ychydig neu ddim. Credaf y byddai gwell llewyrch ar Gristionogaeth heddyw pe gwnaem ymdrech i gydweithio. Mae ambell gynnulliad yn dygwydd weithiau genym ni'r Undodiaid (nis gwn am enwadau ereill) nad oes ond nifer fechan o'r rhyw wrrywaidd yn dod yn nghyd, a'r rhai hyny o bosibl heb arfer ond ychydig iawn neu ddim o'u galluoedd yn gyhoeddus; dichon y byddai yno

nifer luosocach o'r rhyw fenywaidd, a'r rhai hyny o bosibl yn meddu ar alluoedd meddyliol cryf, ai nid iawn fyddai i'r cyfryw arfer eu galluoedd yn gyhoeddus, fel y gallent gymmeryd rhan hyd y nod mewn cyfarfod gweddi ar adegau felly beth bynag. Teimlaf yn sicr yn fy meddwl fy hun y byddai ein haddohad ni yn llawn mor dderbyniol gan ein Tad nefol ag eiddo ein brodyr, os yn meddu ar yr un didwylledd â hwynt; a chredaf fod ein galluoedd ni rywbeth yn debyg i'w heiddo hwy, pe troem hwynt i'r un cyfeiriad, a phe caem cystal manteision addysg â hwy. Fodd bynag, mae Duw wedi ymddiried gorchwyl pwysig iawn i ni, sef dwyn ein plant i fyny. Beth sydd yn fwy pwysig nâ gofalu am y meddwl icuanc; a'r golled neu yr ennill fwyaf ddichon dyn gael, yn fy marn i, ydyw ei ddygiad i fyny. Mae'n ddyledswydd arnom, yn frodyr a chwiorydd, i fod yn fwy ymdrechgar o blaid "y ffydd a rodded unwaith i'r saint." O na bai mwy o yspryd gweithio ynom, mwy o allorau teuluaidd a phethau cyffelyb yn ein plith. Nid rhywbeth tebyg i ddillad goreu i wisgo ar y Sul yn unig ydyw crefydd, ond peth ymarferol bob amser ac yn mhob lle, yn enwedig ar yr aelwyd gartref. Dylem fyned i'r Cwrdd a'r Ysgol bob Sabboth, os na fydd angen am ein gwasanaeth gartref, neu afiechyd yn ein rhwystro, ni ddylem er dim eu hesgeuluso'n wirfoddol. Mae rhai yn ystyried yr Ysgol Sabbothol fel peth hollol ddibwys, fel peth yn perthyn i creill ac nid iddynt hwy. O'm rhan fy hun byddai yn well genyf aros gartref o'r Cwrdd nag o'r Ysgol. Gan mai pererinion ar ein taith ydym oll, a chan fod y fath gyssylltiad agos rhwng ein byw ni yma a'n sefyllfa ddyfodol, taflwn ein dylanwad i mewn o blaid rhinwedd a daioni, gwisgwn am danom yr Arglwydd Iesu. Dyblwn ein diwydrwydd yn ei wasanaeth, a chofiwn mai pob un ar ei ben ei hun a rydd gyfrif i Dduw.

JANE.

YR ARFERIAD O OEDI.

AMSER! Pa mor chwim yr â heibio. Tymhor byr ein bywyd, nid yw ond megys cwmmwl yn codi yn y boreu, ac yn y prydnawn yn diflanu. Ac mewn cyssylltiad â bywyd dyn, pa mor ansicr ydyw. Gallwn fod heddyw yn iach, ond yfory pwy wyr a fyddwn iach ai peidio; heddyw yn gryf, ond yfory fel arall. Felly, pa mor ansicr ydyw ein bodolaeth. Mae yr amser a basiodd wedi ein gadael am byth, ac fe all na ddaw yfory yn eiddo i ni, ac nid ydyw yn eiddo i ni hyd nes byddwn ynddo. Yr unig amser yr ydym yn sicr o hono ydyw y presenol, ac y mae yn ddyledswydd ar bob dyn i wneyd defnydd o hono, a pheidio ag oedi heb gyflawnu ei ddyledswyddau; ond y mae yn dygwydd mai fel arall y mae yn fynych iawn. Oedi y presenol, dysgwyl y dyfodol.

Llawer a dreuliant eu hamser presenol yn ymofidio am golledion y blynyddau sydd wedi pasio; am yr oriau maent wedi dreulio yn ofer,

a'r cyfleusderau maent wedi eu hesgeuluso. "Och," meddai un, "yr wyf wedi treulio fy mywyd yn segur a diddefnydd iawn. O na bai i'r blynyddoedd a basiodd i ddychwelyd, mor wahanol y gweithredwn yn awr." Nis gall yr amser sydd wedi pasio ddychwelyd, ond y mae y presenol yn ein meddiant. Llawer ereill a dreuliant eu hamser yn ffurfio cynlluniau erbyn y dyfodol, ac ar yr un pryd yn esgeuluso eu dyledswyddau presenol; ond nid yw hyn ond gwastraff hollol ar amser. Meddyliwn fod milwr cyffredin yn treulio ei amser presenol i fyfyrio ar yr hyn a fuasai yn y dyfodol, pan y deuai yn swyddog, ac ar yr un pryd yn esgeuluso ei ddyledswyddau presenol, amlwg ddigon na ddeuai y fath un fyth yn swyddog. Pan byddo dyn yn treulio ei bresenol i fyfyrio ar ei sefyllfa ddyfodol, ac ar yr un pryd yn esgeuluso ei ddyledswyddau presenol, mae o herwydd hyn yn annghymhwyso ei hun ar gyfer y dyfodol hwnw pan ddel. Y mae yn ddyledswydd ar ddyn i edrych yn y blaen i'r dyfodol, ond ni ddylem ar un cyfrif daflu o'n dwylaw unrhyw orchwyl ag fo yn ein gallu i'w gyflawnu yn yr amser presenol, heb ei gyflawnu hyd rhyw amser a ddaw; a phan y byddom yn taflu rhyw orchwyl o'n dwylaw, heb ei gyflawnu hyd yfory, yr ydym trwy hyny yn dal rhyw obaith am feddu yfory. Ond, gallaf ofyn, ar ba dir yr ydym yn anturio gwneyd hyn? Hwyrach fod rhywun yn barod i ateb, y gallant wrth eu hoedran presenol gyfrif fod ystor o flynyddau yn ol iddynt etto; ond nid yw hyn ond rheswm gwan iawn i ymbwyso arno. O herwydd paham? Y mae awr ein hymadawiad â'r byd yma yn hollol guddiedig oddiwrth ein golygon marwol ni, a diolch fyddo am hyn. Mae angau yn fynych yn dyfod ar ein traws yn lladradaidd, ac yn cipio ymaith ei cbyrth yn hollol ddirybudd. Llawer rhosyn ieuanc a ddiffydd yn moreu ei oes, tra mae ereill yn cael eu gadael ar dir y byw am hir amser. Llawer a nychant ar fin y bedd am flynyddau lawer, a phob dydd fel pe yn dangos fod dydd eu hymadawiad yn agoshau; tra mae ereill, ydynt yn llawn nerth a bywyd, yn cael eu tori i lawr heb un rhybudd. Felly ni ddylem ymffrostio yn y dydd yfory, canys ni wyddom beth all ddygwydd cyn y daw yr yfory hwnw i ben.

Meddylier fod llong mewn perygl ar y môr, a bod y perygl mor fawr fel nad oes dim yn ei haros ond dinystr. Mae y cadben yn hyspysu y teithwyr ar y bwrdd am yr hyn sydd yn rhwym o gymmeryd lle yn fuan. Meddylier fod un o honom ni, sydd yn darllen y nodiadau hyn, yn un o'r teithwyr yma, ai tybed y buasem ni yn barod i ddywedyd, "Y mae yn rhaid i mi orphen darllen yr ychydig hyn o lyfr, neu orphen y gwaith wyf wedi ei ddechreu." Anhawdd genyf gredu mai fel hyn y buasem. Etto, fel yma yr ydym yn rhy aml o lawer gyda golwg ar gyflawnu ein dyledswyddau; eu gadael o'r neilldu heddyw, gan dybied y bydd yn fwy cyfleus yfory. Yr ydym yn gweled ac yn credu fod yr Ysgol Sul yn beth da, ac nad oes yn ein gwlad yr un sefydliad dyngarol yn debyg iddi; ac etto nid ydym yn rhyw barod iawn i ddangos ein bod yn ei gwerthfawrogi, trwy roddi ein presenoldeb ynddi yn rheolaidd. Yr ydym, fe allai, yn bwriadu myned rhywbryd, ond y mae y cyfleusdra presenol yn cael ei daflu ymaith genym. Ond

os bwriadwn fyned rhyw amser i'r Ysgol Sul, yn awr ydyw'r amser cymmeradwy, fe all na ddaw y dyfodol pell byth yn eiddo i ni; ac os felly y bydd, fe gaiff ein holl amcancion eu llyncu gan angau, a'n gwaith fyned heb ei wneyd. Nac oedwn wasanaethu Duw, ond gwrandawn ar ei alwadau ar ein hol, yn dywedyd, "Yn awr ydyw yr amser cymmeradwy, heddyw ydyw dydd yr iachawdwriaeth."

Yn mywyd dyn y mae dau dymhor, ar ba rai y mae rhesymau dynion dros oedi gwasanaethu Duw *yn awr* yn seiliedig. Un o'r tymhorau yma ydyw afiechyd, a'r llall ydyw oedran. Yn nghanol eu pleserau y mae llawer yn barod i ddywedyd, "Arosaf dipyn bach etto, nes y byddo i afiechyd i fy ngwahanu i oddiwrth y temtasiynau a'r pleserau yma, ac yna mi a droaf at Dduw, ac a arweiniaf fywyd gwell." Ond fe all na ddaw afiechyd i'w cwrdd, ac y cânt eu dwyn ymaith yn hollol ddirybudd. Os felly, bydd yr hyn oeddym wedi ei adael o'r neilldu hyd ddydd afiechyd, gan ystyried y buasem y pryd hwnw yn fwy galluog i "weithio allan ein hiachawdwriaeth ein hunain," wedi myned o'n gafael am byth. "Nid wyf fi ond ieuanc etto," meddai un, "pan y deuaf yn henach mi a wasanaethaf Dduw." Ond atolwg, pa beth y mae yn myned i'w wasanaethu hyd hyny? Os ydyw yn oedi gwasanaethu Duw hyd ei hen ddyddiau, pa beth, tybed, y mae yn fwriadu ei wasanaethu hyd hyny? A ydyw yn bwriadu gwasanaethu y drwg? Rhaid ei fod. Rhaid i bob dyn i wasanaethu y drwg neu y da, ac os ydyw yn oedi gwasanaethu y da hyd ei hen ddyddiau, y mae yn gwasanaethu y drwg hyd hyny. Nis gellir gwasanaethu Duw a Mammon; ac os ydym yn gwasanaethu Satan heddyw, pan mae pob math o iaith yn dyfod allan o'n genau, ai tybed y gallwn wasanaethu Duw yfory? Fel y mae y dyn yn cynnefino â'r drwg, mae ei serch yn cynnyddu ynddo, ac yn y diwedd y drwg yn ei arwain i ddystryw.

Meddylier fod milwr yn dywedyd wrth ei uwch-swyddog, "mi a wrandawaf ar eich gorchymyn yfory." Pa fath deimlad, feddyliem, fyddai yn meddiannu y cyfryw swyddog pan yn clywed y cyfryw. Nid ydym yn cyfrif y buasai yn y man goreu; ond etto fel yma y mae miloedd y naill ddydd ar ol y llall yn gwneuthur â'r hwn sydd, nid yn unig yn Feistr, ond hefyd sydd yn Dad i ni, ac yn llaw yr hwn y mae ein holl dynghedion yn sefyll. Oedi, oedi, gwrandaw ar ei orchymynion a throi y clust byddar i'w holl alwadau. Y mae yn ddyledswydd arnom i wasanaethu Duw yn awr i gyflawnu ein holl orchwylion heddyw ac nid oedi hyd yfory. Dechreu ar yr Ysgol Sul yn awr, gan y gall na fyddwn yn feddiannol ar y cyfleusdra rhyw amser a ddel. Beth bynag fyddo y ddyledswydd wrth law ymaflwn ynddo ar unwaith â'n holl nerth. "Gweithiwn allan ein hiachawdwriaeth," &c.

WAETH PWY.

Y GWIR reswm pam y darfu i Grist geryddu ei ddysgyblion am ddymuno ymddwyn yn drahaus tuag at y Samariaid *sismaticaidd* a *hereticaidd* oedd, yn benaf, am fod eu hyspryd trahaus yn gwbl wrthwynebol i dymher bwyllog Cristnogaeth.—*Dr. Daniel Whitby.*

PA FODD Y GELLIR GWNEYD DWY GARREG YN UN.

I'r Ieuainc.

"Fel y byddont oll yn un; megis yr wyt ti y Tad ynof fi, a minau ynot ti."—Crist.

Y mae'r Iesu yn dywedyd mewn man arall fel hyn,—"Myfi a'r Tad un ydym." Dichon y gall hyn ymddangos yn dra hynod i rai dynion, sef fod Iesu Grist yn un â'r Tad nefol, yr hwn y mae yn alw yn Dad iddo ef, ac yn Dad i ninau, ac yn Dduw iddo ef ac yn Dduw i ninau; ond er hyny y mae yn ffaith amlwg ac Ysgrythyrol,—a dim yn llai o ffaith oblegyd ei fod yn ymddangos yn hynod a dyeithr i rai dynion. Y mae'r Iesu yn golygu, neu yn gosod allan eu bod yn un mewn ysbryd, un mewn awydd daer i ddyogelu y defaid. Yn awr, byddai yn beth dyeithr i wneyd dwy garreg yn un, fel na allech chwi na minau eu hysgaru, neu eu rhanu byth mwy oddiwrth eu gilydd; etto i gyd gellir gwneyd hyn. Y mae y dynion hyny sydd wedi treulio eu bywydau mewn ymdrechu cael allan ystyr y pethau y mae Duw wedi eu gosod yn y byd yn cael eu galw yn wyddonwyr wedi meddwl llawer iawn yn nghylch y ffaith yma, sef y gallasai dau beth gael eu gwneyd yn un, etto ni allent wneyd hyny hyd i ddyn cywrain a medrus o'r enw Whitworth gael hyny allan a phenderfynu y cwestiwn. Yn awr y mae y gallu yma sydd yn eu cadw yn nghyd yn cael ei alw yn *gyddyniad* neu gyfrwymiad (*cohesion*). Cawn ymdrechu gwneyd ystyr y gair hir yma (cyfrwymiad) yn eglur a syml i chwi. Pan y mae dwy garreg wedi cael eu gwneyd yn llyfn, yn gydwastad, yna bydd i'r gronynau, o'r rhai y maent wedi cael eu gwneyd, oll i gyfaddasu, neu gyfateb y naill i'r llall, nes y maent yn dyfod fel un garreg, oblegyd hyny ni all un pwysau na nerth, nac unrhyw beth arall eu gwahanu drachefn. Meddyliai dynion y gallesid gwneyd hyny yn rhwydd iawn, ond pan geisiasant darfu iddynt fethu bob amser, hyd i Syr Joseph Whitworth feddwl mai y rheswm paham na ddarfu iddynt lwyddo oedd oblegyd nad oedd y cerryg wedi cael eu llifanu mor llyfn ag oedd bosibl, ac yn wir yr oedd yn iawn. Er eu cael yn hollol lyfn, darfu iddo osod tair carreg ar dair o attegau (*supports*) o'r un uchder; oblegyd pe buasai un garreg yn cael ei llifanu uwchlaw y llall, sicr yw y buasai rhyw ran o'i gwyneb yn cael ei adael yn anwastad, yr hyn fuasai yn eu hattal i gyfrwymo neu uno yn hollol. Llifanodd y tair carreg yma ar unwaith, ac wedi eu profi a'u cael yn hollol lyfn, y canlyniad oedd cydrwymiad. Ni allasai yr un gallu eu gwahanu drachefn, dim un pwysau trwm, ac ni allasai un gwasgiad eu rhanu oddiwrth eu gilydd, neu gael un effaith arnynt. Gosodwyd hwynt mewn gwagle, hyny mewn *glass*, o'r hwn oedd yr awyr wedi ei dynu ymaith yn llwyr gan sugniedydd awyr (*air pump*); ond ni allasent eu gwahanu. Yn awr y mae hon yn ffaith ryfeddol, a dylai pob bachgen ei gwybod.

Gwers. Yn awr y mae gwirionedd ag y gall ein hencidiau ei dysgu oddiwrth y ffaith wyddonol yma, oblegyd y mae byd yr ysprydoedd a'r

byd allanol yn glymedig â'u gilydd. Chwi a welwch mai y dirgelwch i gael y cerryg i gydrwymo, neu i uno â'u gilydd oedd gwneyd yr wynebau yn hollol lyfn; yr oedd yn rhaid eu bod oll mewn cyflwr parotoedig neilldnol cyn y buasent yn uno felly. Ni fuasai un ochr anwastad yn uno gydag un wastad. Felly y mae gyda golwg ar ein heneidiau ni—cyn y gallwn adnabod Duw, neu fod yn un ag ef fel oedd Iesu Grist, y mae yn rhaid i ni fod yn bur; y mae yn rhaid i ni ddwyn ein calonau i garu y pethau mae Ef yn garu, a bod yn dda fel mae Ef yn dda, neu ni chawn ni ein huno gydag Ef. Ni ellir byth gwneyd darn o garreg a darn o bren yn un, oblegyd nad ydynt o'r un natur. Felly gyda golwg ar y drwg a'r da. Ni all yspryd Duw byth gyffwrdd â bachgen drwg; ni all byth uno cyhyd ag y mae y bachgen yn para yn ddrwg, tra mae ei gymmeriad yn anwastad; a pha hiraf y glyno wrth ei ffyrdd drygionus, lleiaf y tebygrwydd iddo gael ei uno â'r Yspryd Da. Y mae yn rhaid i'w enaid gael ei ryddhau oddiwrth bob drwg a'i wneuthur yn llyfn fel y garreg trwy edifeirwch cyn y gall fod yn un â Duw. Os yw plentyn bach, fel plentyn mawr, yn caru Duw ac yn cyflawnu ei ewyllys ar y ddaear, ni ellir ei ysgaru byth oddiwrtho. Dywed yr apostol Paul,—"Pwy a'n gwahana ni oddiwrth gariad Crist? ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf? Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na chonciwerwyr trwy yr hwn a'n carodd ni. Canys y mae yn ddyogel genyf na all nac angau, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau presenol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd."—Rhuf. viii. 35. A dywedodd Iesu Grist, "Yr hwn a'm hanfonodd i sydd gyda mi; ni adawodd y Tad fi yn unig, oblegyd yr wyf fi yn cyflawnu bob amser y pethau sydd yn rhyngu Ei fodd Ef." A phan y mae yn gweddio dros ei ddysgyblion, y mae yn dywedyd, "Fel y byddont oll yn un, megys yr wyt Ti, O Dad, ynof fi a minau ynot Ti—fel y byddont oll yn un ynom ni, ac fel y gwypo ac y credo y byd mai Tydi a'm hanfonaist i." "A'r gogoniant a roddaist i mi a roddais iddynt hwy, fel y byddont un megys yr ydym ni yn un. Myfi ynddynt hwy a Thithau ynof fi, fel y byddont wedi eu perffeithio yn un megys yr ydym ni yn un, ac fel y gwypo y byd mai Tydi a'm hanfonaist i, a charu o honot hwynt fel y ceraist fi."

Yn awr, gallwn fod yn un a Christ, a Christ yn un gyda Thad yr ysprydoedd, mewn caru a chyflawnu y pethau wyddom a gymmeradwya Ef; ac os oes genym yn ein heneidiau gariad Duw, os ydym yn ei garu Ef fel mae Ef yn ein caru ni, byddwn fel y mae'r Iesu am i ni fod,—*yn un* â Duw fel yntau. Fel y gall dwy garreg, pan wedi eu gwneyd yn llyfn, gydrwymo neu uno, felly y gall ein heneidiau gydrwymo ag yspryd Duw, os yr ymdrechwn fod yn dda fel Ef. A gofynwn, wrth ddiweddu, pwy all ddrygu y sawl y mae Jehofah o'u tu? Pwy all ymladd yn erbyn Duw? Pwy all orchfygu yr Hollalluog? Os daw allan olynion yn erbyn ei etholedigion y mae yn sier o'u llwyr ddifetha hwynt. Pwy all niweidio ei saint Ef? Yr wyf yn meddwl y dylem

ni oll gydnabod pa mor ddyogel ydym pan ydym yn mwynhau Ei bresenoldeb dwyfol Ef. Pan ydym megys yn myned allan o'r presenoldeb hyny, yr ydym yn agored i brofedigaethau, y rhai, pan ydym yn cymdeithasu ag Ef, na ddeuant braidd yn agos i ni. Pan ydym yn aros gyda Duw, hyny yw, pan ydym yn un â Duw, y mae nwydau isel a phechadurus megys yn gorwedd yn farw—y maent fel anifeiliaid a chreaduriaid rheibus y maes yn arch Noah, yn berffaith ddiniwed; ond pan yn gollwng y Tad nefol dros gof, y maent yn rhuthro arnom, ac yna y mae nwydau y natur is yn cario y fuddugoliaeth arnynt, ac yn ein dwyn yn gaeth. Pan yn sefyll yn mhresenoldeb Duw, gallwn wrthwynebu a gwrthsefyll ein gelynion penaf a mwyaf ystyfnig; ïe gall ein heneidiau fod megys yn mysg llewod, ond ni all yr un llew ein cyffwrdd pan y mae Duw gyda ni yn y flau. Gallwn fyned i'r ffwrnes dân heb yr un niwed ddygwydd i ni. Gyda Duw, gan hyny, y byddom oll yn wastadol, ac os ydyw Duw trosom, pwy all fod yn ein herbyn?

L.

YR EGLWYS AC ANNGHYDFFURFIAETH.

(Allan o'r *Truthseeker*.)

Mae a ganlyn wedi ei anfon atom:—

"Deg o resymau dros fod yn aelod ffyddlon o Eglwys Loegr."

Dylai pob Cristion Seisnig fod mewn llawn gymmundeb ag Eglwys Loegr:

1.—Am fod yr Eglwys yn hen, yn dda, ac yn wir.

2.—Am mai yr Eglwys yn unig sydd yn meddiannu yn Lloegr awdurdod dwyfol, sydd wedi ei drosglwyddo mewn llinell reolaidd oddiwrth yr Apostolion Sanctaidd.

3.—Am mai yr Eglwys yn unig sydd yn rhoddi i ni elengyl bur Iesu Grist, heb ychwanegu dim ati na thynu dim oddiwrthi.

4.—Am mai yr Eglwys yn unig sydd yn rhoddi i ni, yn eu purdeb a'u cyfanrwydd, y sacramentau o apwyntiad Crist.

5.—Am mai yr Eglwys yn unig sydd yn meddiannu gweinidogaeth apostolaidd, rhydd yn gyffelyb oddiwrth lygredigaeth Pabaidd a diffyg Puritanaidd.

6.—Am mai yr Eglwys yw y gwrthgawdd mawr er amddiffyn gwirioneddd yr Efengyl a'r Diwygiad.

7.—Am fod yr Eglwys wedi ei selio (*cementio*) â gwaed merthyron ardderchog, a chyffeswyr a seintiau.

8.—Am mai yr Eglwys yn Lloegr yw colofn a sylfaen gwirioneddd.

9.—Am mai yr Eglwys yw cynnullfan unedig gwledig, am yr hwn y gweddiodd Crist. Gwel St. Ioan xvii. 21.

10.—Am fod sism (neu ymraniad) gwirfoddol yn bechod. Yn y wlad yma nid oes yr un esgusawd yn y byd dros ymraniad rhwng Cristnogion. Nid wyf wrth gwrs yn cyhuddo pawb Ymneillduwyr o'r pechod o sism. Ond ceto y mae y fath bechod â sism.

Frodyr ymneillduol, deuweh yn ol i'r fam eglwys! Eglwyswyr, byddweh ffyddlon i'ch anrhydeddus fam, a gwrthodweh ymuno â'r cyfryw hyny a fynent ei hyspeilio o'i meddiannau, neu a fynent ei dwyn yn ol i gaethiwed Rhufeinig."

Mewn ateb i'r apêl hwn, dymunwn gynnyg yr awgrymiadau canlynol:—

1.—Mae llawer o bethau yn "hen" ag nag ydynt mewn un modd yn ddymunol i fod "mewn llawn gymmundeb" â hwy. Pa un a fydd y peth "hen" hwnw yn beth hefyd fydd yn "dda ac yn wir" sydd fater o opiniwn neu o chwaeth.

2.—Mae yn beth hawdd iawn i honi "awdurdod ddwyfol." Nid yw mor hawdd i brofi y meddiant o hono. Mewn perthynas i'r "llinell reolaidd oddiwrth yr Apostolion Sanctaidd" goreu po leiaf ddywedir. Ymddengys mae gan y Pabyddion mae yr hawl goreu yn y cyfeiriad hwnw. Ond, wedi'r cwbl, nis gellir trosglwyddo i waered neu etifeddu synwyr a gwirionedd yn gyffelyb i'r "*family plate.*"

3.—Ac etto, peth hawdd iawn yw dywedyd mai "yr Eglwys yn unig a rydd i ni efengyl bur Iesu Grist." Ond y ffaith yw, ei fod y peth anhawddaf yn y byd i wybod beth oedd yr Efengyl bur. Iddi'n fuan gael ei llygru ni wyddom. Pa un a oes rhywun wedi llwyr ridyllio y sorod allan mae yn anhawdd dywedyd. Y peth mwyaf annhebyg yn y byd yw fod gan unrhyw Eglwys neillduol un *patent right* i wneuthur hyny.

4. Mae "Sacramentau" yr Eglwys yn ddwy, Bedydd a Swper yr Arglwydd; ond y mae y ddwy yma yn cael eu cydnabod gan Eglwysi ereill, a chan rai mewn ffordd sydd yn ymddangos fel yn llawer agosach at gynllun syml yr Efengylau.

5.—Beth ydyw "gweinidogaeth Apostolaidd?" Gwneuthurwr pebyll oedd Paul, a gweithiai wrth ei gelfyddyd ac yr oedd yn falch o honi. Nid yw esgobion ac offeiriaid yn cael caniatad i ddylyn galwedigaethau "tymhorol." Ac mewn perthynas i "lygredigaeth Pabaidd" a "diffyg Puritanaidd" yr Eglwys, er mor rhyfeddol yw, mae digon o bob un o'r ddau yn yr Eglwys yn awr; ac o fewn iddi gellir cael pob math o eithafoedd, Uchel, Isel, Eang, Cul.

6.—Ac am y gwrthglawdd, rhaid fod tyllau ynddo; gan fod Rhesymolwyr a Rhufeinwyr yn ymarllwys i mewn yn llu.

7.—Y nefoedd a faddeuo i ni i gyd! Nid yr Eglwys Wladol yw yr unig Eglwys sydd wedi cael ei "merthyron" a'i "chyffeswyr;" ac nid hi yw yr unig Eglwys sydd wedi cael ei "seintiau." Os yw "yr Eglwys" wedi "ei *cementio* â gwaed merthyron ardderchog a chyffeswyr a seintiau" mae wedi gwneuthur i fyny am hyny trwy ddarparu "*cement*" ar gyfer eglwysi ereill, "seintiau" a "chyffeswyr" y rhai y mae hi ei hunan wedi eu merthyru.

8.—Mae pob sect yn dywedyd rhywbeth yr un peth.

9.—"Yr eglwys yw cynnullfan (*rallying point*) undeb gweledig!" Ni fu erioed haeriad mwy beiddgar, yn ngwyneb y ffaith fod yr Eglwys ei hunan er ys blynyddau wedi ei rhwygo a'i blino gan wrthgyhuddiau ac hyd y nod gan erlidigaethau wedi eu cario i'r man pellaf. Os ydyw Eglwys sydd yn cynnwys cymdeithasau gwrthwynebol mor ddiwyd a llysoedd cyfreithiol mor fywiog yn cynnrychioli yr "undeb gweledig y gweddiai Crist am dano," y mae arnom angen am Efengyl newydd a Bywyd Crist newydd.

10.—Mewn perthynas i bechod "sism" neu sismaticiaeth, dyfais offeiriadol ydyw i yru ofn ymneillduaeth ar ddynion. Os nad oes "esgusawd yn y byd dros ymraniad yn mhlith Cristnogion" paham mae yr Eglwys trwy osod i fyny foddion prawf (*tests*) mor gul a chredoau mor haerdybiol yn cau allan filoedd o oreuon y dydd? A phaham trwy orchymyn darlleniad cyhoeddus Credo Athanasius y mae yn damnio mor drahaus filoedd ar filoedd o bobl Gristnogol?

Ofer ydyw y waedd "Frodyr Ymneillduol deuwch yn ol i'ch mam Eglwys!" Y mae y fam yn ein rhegu ac yn slamio y drws yn ein gwynebau. Gwell genym ein "*private lodgings*" hyd nes y gallwn beri iddi roddi i ni ein hawliau ein hunain gartref.

Mae yr hedyn yn marw i fywyd newydd, felly hefyd y mae dyn.—*George Mac Donald.*

Gofynwyd yn ddiweddar i fyfyriwr yn Rhydychain, un oedd yn amlwg yn fwy hoff o'i fâd nag o'i lyfrau. Pa sawl person sydd yn y Drindod? How many persons are there in the Trinity? Yn awr, mae yn debyg mai *Trinity* oedd enw y bâd, ac mai i fyfyrwyr *Trinity College* y perthynai. Ateb y myfyriwr oedd "Pedwar, syr, heblaw yr un sydd wrth y llyw!"

YR AIFFT.

Mae yr uchod wedi bod yn brif bwnc ein newyddiaduron yn ddiweddar, ac mae llawer o wahanol farnau mewn perthynas iddo. Nid oes yr un pwnc gwleidyddol byth braidd nad oes dwy ochr iddo, ac y mae o leiaf ddwy i hwn. Mae yr elfen jingoaidd o gymdeithas wrth gwrs yn cael llawer yn y pwnc i beri dedwyddwch iddynt; tra mae y dosparth arall mwy cymmedrol yn cael llawer o foddhad i'w teimladau oddiwrth y llwyddiant rhyfeddol sydd wedi coroni ymdrechion ein milwyr. Ni welwyd erioed, goeliwn, fwy o wroldeb a beiddgarwch. Gall Syr Garnet Wolseley a'i gotiau cochion dywedyd fel y dywedwyd gan Caisar gynt *Veni, vidi, vici*. Erbyn eu bod braidd wedi dechreu yr ydym yn darlleu eu bod wedi gorphen. Gwnaethpwyd gwaith brysiog yno, a *short and sharp* oedd y moddion. Ond yr hyn a deimla llawer, ac yn eu plith ein Henry Richard, yr aelod dros Gymry, yw hyn: Trueni na fuasai ganddynt well achos. Y fath ogoniant ag yw gogoniant milwrol maent wedi ei ennill. Ond pa fath ogoniant all fod mewn lladd dynion? Pa fath ogoniant all ddeilliaw i Brydain Fawr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg o'r cyfnod Cristnogol oddiwrth y fath alanastra ar yr Aifftwyr, ac yn enwedig os nad oedd yr achos tu hwnt i bob amheuaeth yn achos da? Nid ydym heb hanner credu na fydd cywilydd arnom etto cyn hir am ein gwaith yn yr Aifft. Beth yw ein teimlad yn awr mewn perthynas i'r Zuluaid a Cetewayo? Fe ddaw anrhydedd mwy bob amser oddiwrth wneuthur cyfiawnder hyd y nod tuag at elyn nag oddiwrth ei orchfygu. *Might* yw *Right* gyda rhai; ond camsyniad dirfawr yw tybied fod un *argument* yn ngrym ein magnelau. Palmerston, onide, ddywedodd "Providence is on the side of the biggest battalions." Fe ddichon llwyddiant milwrol fod o'n tu, ond y mae yn ynfyd meddwl fod hyn yn gyfystyr â chyfiawnder a chwareu teg. Fe ddichon i'r Trechaf dreisio a'r Gwanaf orfod gwaeddi, ond ni wnaiff byny byth benderfynu beth sydd iawn. Hawdd iawn ydyw codi cri yn erbyn ein gwrthwynebwyr a'u darlunio mewn lliwiau tywyll. "Cyhoeddi Arabi yn Rebel" ydoedd y waedd yn ein gwlad ni ychydig yn ol. Nid oedd nemawr yn holi a ydyw dim o Arabi yn cynnrychioli rhyw egwyddor bwysig—cyfiawnder a chwareu teg i ormesedigion ei wlad fe allai.

Hen ddywediad yw, 'Does dim yn llwyddo fel llwyddiant. Nothing succeeds like success. Pe buasai Arabi wedi llwyddo, beth fuasai y canlyniad? Ai lles, ynte dinystr ei wlad. Beth oedd ei amcan yn ei waith yn arwain y gwrthryfel yn erbyn yr awdurdodau cartrefol, a pha beth sydd ganddo yn awr i ddywedyd drosto ei hunan? Dywedir ei fod wedi lledawgrymu er ys tipyn yn ol ei fod yn actio dan gyfarwyddyd ei feistr y Sultan o Twrci. Mae y ffaith yn amlwg fod ymddygiad y Twrc wedi bod yn dywyll ac anesponiadwy yn yr holl ymdrafodaeth yma, a'r casgliad yn naturiol yw fod Arabi ac yntau i raddau o leiaf yn deall eu gilydd.

Un peth sydd sicr fod sefyllfa yr Aifft cyn y rhyfel yn ddigon canolig, a'r trigolion yn ochain dan bwys y trethi. Rhywbeth tebyg i

hyn sydd yn wastad yn gwneuthur gwrthryfel yn bosibl. Lle byddo y bobl mewn cyflwr cysurus nis gellir eu tueddu i wrthryfel. O'r braidd y gellir dysgwyl, fodd bynag, i ryfel leihau y trethi. Mae rhyfeloedd bob amser yn gostus iawn, a phob amser yn tueddu i gynnyddu y baich; ac fe fydd yn rhaid i rywrai ddwyn treuliau y rhyfel presenol. Ond gadawer i ni obeithio, wedi tewi o'r magnelau a diflanu o'r mwg, a chlirio o'r awyrgylch, y daw rhyw les i dlodion yr Aifft, ac y gyrir i ffwrdd ryw hanner yr Ewropeaid sydd yn llanw y segur-swyddi, ac yn cael byd da, helaethwych beunydd, ac y torir i lawr bob treuliau afreidiol. Mae yr Aifft yn naturiol yn wlad gyfoethog iawn, ac oni bae'r gelod dynol gwaneus sydd yn sugno gwaed ei bywyd, gallai'r holl drigolion fyw yn ardderchog; ond y mae'r Twrc megys rhyw hunlle ofnadwy yno, fel yn mhob man arall, ac y mae lle i ofni fod ei raglaw, y Khedive, yn meddwl mwy am ei *salary* dda ei hunan nag am hawddfyd a lles ei ddeiliaid.

Eisieu mwy o wir Gristnogaeth sydd yn y byd, onide, ac nid *sham* o honi. Ond cofier, nid yw y Tyrciaid na'r Aifftwyr yn proffesu Cristnogaeth ond Mohametaniaeth, a chrefydd rhyfel yw crefydd Mohamet wedi bod erioed. Pe buasai mwy o grefydd y rheol auraidd Gristnogol yn mynwes ein llywodraethwyr, mae yn amheus genyf a fuasai y rhyfel diweddaf yma wedi cynnneryd lle. Nid wyf yn myned i gymmeryd arnaf i benderfynu ar bwy mae y bai mwyaf yn y mater—y Twrc, neu y Khedive, neu Arabi, neu Salisbury neu Gladstone, ond nid oes le i amheu nad oes bai mawr yn gorwedd wrth ddrws rhywun.

Yr oedd y Suez Canal, y ffordd i'r India, mewn perygl meddant. Gellir amheu hyny, ond a chaniatau hyny, a oedd hyny yn ddigon o reswm dros i ni fyned a'n llongau i Alexandria ac ymosod ar yr Aifft? **Ac yn awr, beth wneir nesaf? Amser a ddengys.**

RAD.

Y DYN O GYFOETH.

DYCHRYNLLYD yw ei gyfrifoldeb. Rhoddwyd i'w ofal gan yr Hollalluog ymddiriedaeth sydd yn gofyn pob doethineb dynol i'w drafod yn ddoeth. Edrychir arno gan ei gymydog fel un sydd wedi cael ei freintio yn uchel; ond ni allaf fi edrych arno yn yr olwg yma yn unig. Cofiwn am ei ofalon, ei gyfrifoldeb a'i ddyledswyddau. Fy nghydfarwolion, dymunwn eich gosod ar eich gwyliadwriaeth rhag edrych ar gyfoeth fel meddyginiaeth holliachaol eich gwaeau daearol. Bydded eich iaith, "Na ddyro i mi na thlodi na chyfoeth." Y mae y meddiant o gyfoeth yn dwyn gydag ef bethau ereill heblaw arddigonedd a **gloddest y byd hwn.**—*Dr. Chalmers.*

YSPRYDOLIAETH.

Beth yw Ysprydoliaeth ? Gweithrediad neu ddylanwad uniongyrchol yr Yspryd Dwyfol ar yr yspryd dynol ydyw. Presenoldeb Duw yn yr enaid yn ei oleuo ydyw. Y mae yn ein cynnorthwyo yn yr ymchwiliad am wirioneddd. Y mae yn achosi ac yn atcb pob gweddi ddifrifol, doeth a gwir. Y tân dwyfol yn nhob Efengyl newydd ydyw, yr elfen ddwyfol yn nhob darganfyddiad newydd, a'r ysni dwyfol yn nhob symmudiad newydd yn nghyfeiriad yr lawn tragywyddol. Duw yn dylanwadu ar ei blant i ymgeisio, i ddysgu ac i weithio. Y mae yn beth esgeulusedig, ond yn wirioneddd mawr, mai yr un a'r unrhyw beth ydyw Ysprydoliaeth yn y proffwyd a'r apostol, y bardd a'r athronydd, y pen saer neu y celfyddwr—yr un a'r unrhyw beth ydyw ynddynt oll. Yn yr oll nid anffaeledigrwydd ydyw, ond yn yr oll y mae yn gyflwr o godiad y meddwl—cyflwr yn yr hwn y mae meddyliau a meddylddrychau yn argraffu eu hunain gyda mwy o allu nag yn unrhyw gyflyrau ereill. Y mae yn amlygu ei hunan yn y mynydau heddychol hyny sydd yn dyfod i lawer, ac a allant fe allai ddyfod yn eiddo pawb, pan welwn bethau mewn goleuni eglurach a mwy tanbaid nag ar brydiau ereill, ac y canfyddwn eu ffurfiau a'u lliwiau gyda mwy o gyffroad bywiog. Y cyflwr meddwl ydyw yn yr hwn y mae y pen saer yn amgyffred brasluniad Eglwys gadeiriol ardderchog yr hon fydd i godi, gyda'i attegau corfforg yn nghyd a'i rhodfeydd adseiniol, ei thyrau a'i chlochdy uchel, gyda holl brydferthwch ei haddurniadau. Cyflwr meddwl ydyw yn yr hwn y mae yr athronydd—fel yr adroddir yn ystori adnabyddus Syr Isaac Newton—oddiwrth ryw amgylchiad allanol, fe allai sydd yn derbyn cyffroad sydd yn dadblygu iddo ef gyfraith yn y greadigaeth oedd guddiedig hyd yma mewn dirgelwch. Y cyflwr meddwl hwnw ydyw, yn yr hwn y mae y bardd yn cael ei weledigaethau yn chwyfio fwyaf amlwg o'i flaen, ac yn y rhai y mae yn rhoddi datganiad "i feddyliau sydd yn *anadlu*," ac "i eiriau sydd yn llosgi." Y cyflwr meddwl ydyw, yn yr hwn y mae y merthyr a'r mab ymroddgar i hunan aberth, yn myned rhagddo i ddyoddef —gan ei deimlo yn wir, trwy bob gwythien a mân edefyn—ond o hyd yn glynu wrtho, ac yn penderfynu dyoddef er ei fwyn a lles ereill a'r dygiad oddiamgylch o ddaioni yn y byd. Cyflwr meddwl yw, yn yr hwn y mae y duwinydd yn gweled gogoniant a daioni Duw yn pasio o'i flaen, ac yn eu darlunio mewn seinian cyffelyb i'r rhai hyny o eiddo yr hen bobl Hebreaidd. Y fath gyflwr meddwl ydyw, yn y dyddiau diweddaraf yma, yn yr hwn y mae Jeremy Taylor, Fenelon, Robert Hall, Edward Irving, Hyacinth, Frederic Robertson, William Ellery Channing, Theodore Parker, Arthur Stanley, Thomas Lynch, Thomas Chalmers, James Martineau, ac ereill, y rhai yn nyrchafiad eu heneidiau eu hunain, sydd wedi dyrchafu eneidiau ereill at y Duwdod trwy ynganiadau wedi eu llanw a gallu, gwirioneddd, a phrydferthwch. Ac nid yw y cyflwr meddwl yma, yr ysprydoliaeth yma, ddim yn gyfyngedig i un lle, i un amser, i neb pobl. Y mae yn cael ei

deimlo yn gyffredinol, mewn graddau amrywiol, gan y genedl baganaidd yn gystal â chan y Cristion, gan yr eilunaddolwr yn gystal ag addolwr yr un gwir Dduw. Y mae yn ddiweddar fel y mae yn hen, y mae yn Baganaidd fel y mae yn Iuddewig, y mae yn gyffredinol a dynol fel y mae yn dduwinyddol. Y mae yn un o'r rhoddion hyny y mae Duw yn eu cyfranu yn rhad ac heb ddannod.

Y mae y Beibl yn cynnwys Ysprydoliaeth fel mae y glo yn cynnwys pelydrau yr haul. Amser maith *maith* yn ol tyfodd y coedwigoedd cynoesol yn ngoleuni yr haul. Claddwyd hwynt o'r golwg am oesau. Darganfyddodd gwyddor hwynt, a dysgodd ni pa fodd i dynu goleuni a gwres oddiwrthynt. Yr ydym yn gwybod i oleuni ein nwy a'r gwres yn ein tan-gelloedd a'n ffwrnesi ddyfod yn wreiddiol oddiwrth yr haul. Felly y darfu i hen broffwydi Judea dynu eu hysprydoliaeth o ffynnon ddiyspydd bywyd dwyfol. Cyflawnasant eu gwaith a buont feirw. Nid ydym yn clywed yn yr Ysgrythyrau ddim amgen nag adseiniad eu geiriau llosgadwy. Trwy wreichionen o gydymdeimlad gallwn oleuo yr hen dânau i fyny a gwresogi ein hunain wrthynt, a darllen hanes Ysprydoliaeth ddynol yn eu goleuni. Yr ydym yn ddiolchgar am Ysprydoliaeth ail law; ond nid yw yn boddio ein heneidiau. Gwrthodwn ni gadw ein drysau a'n ffenestri yn nghau tra mae yr haul yn dysgleirio ar ein haelwyd. Gwrthodwn gau ein llygaid ar ddydd dysglaer ein hoes ni. Nid yw Duw wedi ein gadael ni nac annghofio y ddaear. Nid ydyw wedi diystyru yr oes hon. Nid yw wedi ein hannghofio ni. Y mae yn tywallt Ysprydoliaeth i'n meddylian ni. Y mae yn ysgrifenu ei gyfraith ar ein calonau. Y mae yn ein harwain gerfydd ein llaw yn ein crwydriadau Ei blant Ef ydym ni, nid trwy fabwysiad, fel dywed duwinyddion, ond trwy natur ac iawnder dwyfol. Hawliwn ein rhan o ymborth dwyfol. Ni wyddom ni ddim ond am un pechod yn erbyn yr Yspryd Glan—i wadu nad yw Duw yn ysprydoli dynion a menywod yn bresenol yn gymmaint ag y gwnaeth crioed, i wrthwynebu tueddiadau ysprydol ein hamser ni ein hunain, i ofni myned rhag ein blaen gyda Duw, i addoli delwau y gorphenol yn lle Ysprydolydd byw y dydd presenol, i arddangos fod Satan yn byw mewn gwyddor â Duw yn wybodaeth anmherffaith yr hen hen orphenol. Y mae hyn yn bechod yn erbyn budd a lles uwchaf yr yspryd dynol, ac fel pob pechod, y mae yn anfaddeuadwy.

Nid ydym ni ddim yn diystyru, neu yn edrych dros ben yr ysprydoliaeth mae yr hil ddynol wedi dderbyn trwy y Proffwyd o Nazareth. Pregethwyd yr Efengyl a bregethwyd gan Grist am flynyddau lawer cyn iddo Ef gael ei eni. Gellir cael rhywbeth yn debyg iawn i'r bregeth ar y mynydd, Gweddi'r Arglwydd, y Rheol auraidd yn ysgrythyrau Buddist, Hindoo, a China—o leiaf gellir eu lloffa oddiwrth lenyddiaeth gyssegredig y crefyddau yma. Ond ysprydolwyd yr Iesu i fyw yr athrawiaethau goruchel a ddysgodd. Dywedai dynion, "Y mae yr athrawiaethau yma yn wir, yn brydferth, dwyfol; ond pwy all eu gosod mewn ymarferiad?" Agorodd yr Iesu ei feddwl i Dduw mewn gweddi, a llanwodd ysprydoliaeth Duw ei yspryd, ac yna darfu iddo megys sugno Ei athrawiaethau iddo Ef ei hun, a'u gwneyd yn

rhan o hono Ef ei hunan. Yr oedd Ef yn ymgnawdoliad o'r Rheol Auraidd; yr oedd Ef yn gorfforiad o Weddi'r Arglwydd; yr oedd Efe y Bregeth ar y Mynydd mewn bywyd dynol, sylweddol a phersonol. Y mae Duw wedi nodi allan, neu gyfeirio y myrddiynau o ddynion yn y byd Cristnogol at yr Iesu am ddwy fil o flynyddau, ac wedi dywedyd: "Wele beth all dyn wneyd a bod dan ddylanwad dwyfol!" Gall damcaniad neu athrawiaeth fod a delw Duw a'r arysgrifen o gariad tragwyddol arni; ond y mae dynion yn barod bob amser i ofyn y gofyniad, "A ellir ei gwisgo mewn cnawd dynol?" Ac a ydym ni yn barod i ateb y gall pob dyn fyddo i ufuddhau y cyfreithiau sydd yn llywodraethu Ei yspryd Ef fyw yr Efengyl fwyaf ddwyfol a ddanfonwyd erioed o'r nefoedd i'r ddaear! Y mae yr Ysprydoliaeth a dderbyniwn ni oddiwrth yr Iesu, gan hyny, yn gorwedd yn Ei fywyd yn fwy nag yn Ei Efengyl; ond pe na buasai yr un ysprydoliaeth, ni fuasai yr un Iesu.

Gwyliwn wyneb Correggio fel y mae yn sylwi ar weithiau Raphael. Y mae yn yfed i mewn brydferthwch ar ol prydferthwch—y mae yn gweled perffeithrwydd ar ol perffeithrwydd yn dyfod i'r amlwg, y mae ei enaid wedi ei lanw ag edmygedd. Y mae yspryd Raphael yn ei ysprydoli ef; y mae yn rhoddi datganiad i'w deimlad gyda balchder rhagorol yn eu celfyddyd gyffredin,—"Yr wyf finau hefyd yn arlunydd!" Astudiwn fywyd a marwolaeth yr Iesu; a gweddiwn allan gyda gorfoledd, "Yr wyf finau hefyd yn fab i Dduw!"

U. H.

DEWISWCH YN DDOETH.

Peidiwch byth priodi dyn nad oes ganddo ddim ond ei gariad i'w recommendio i chwi. Mae hwnw yn swynol iawn, ond nid yw yn gwneuthur y dyn. Os nad yw mewn cyfeiriadau ereill yr hyn y dylai fod, ni fyddwch chwi byth yn ddedwydd gydag ef. Ni ddylai y dyn perffeithiaf nad yw yn eich caru fod yn wr i chwi; ond er fod priodas heb gariad yn ddychrynllyd, etto ni wna cariad ei hunan ddim o'r tro. Os yw'r dyn yma yn amddifad o anrhydedd tuag at ereill, neu yn iselwael, neu wedi ymroddi i ryw bechod, daw amser pan fyddoch naill ai wedi dyfod i'w gashau, neu wedi suddo i'r un lefel ag yntau. Caled cofio, yn nghanol cusanau a chlodydd, fod rhywbeth arall yn y byd i'w wneuthur ac i feddwl am dano, heblaw gwneuthur caru; mae dyddiau bywyd yn llawer; a rhaid i'r gwr fod yn arweinydd i ymddiried ynddo—yn gydymaith, yn gyfaill, yn gystal ag yn gariad. Mae llawer merch wedi priodi bachgen, y gwyddai ei fod yn bob peth ond da, yn unig "am ei fod yn ei charu gymmaint." Ac mae'r fflam wedi diffodd ar yr aelwyd gartref cyn hir, ac yno mae wedi gweled un yn eistedd, nas gallai byth obeithio y byddai iddo ei harwain yn nghyfeiriad y nefoedd—neu, pe dilynai ef fel y dylai gwraig ddilyn ei gwr, a arweiniai ei chamrau i ddinystr. Peth difrifol iawn yw priodas—dewisiad dros fywyd: byddwch yn ofalus sut yr ydych yn dewis.

DYSGU MERCHED I WEITHIO.

Y merched tlotaf yn y byd yw y rhai hyny na ddysgwyd erioed i weithio. Y mae miloedd o honynt. Mae rhieni cyfoethog wedi eu maldodi; y maent wedi eu dysgu i ymddibynu ar ereill am eu bywiolaeth, ac y maent yn hollol ddigymhorth. Os anffawd a ddaw i'w cyfeillion, yr hyn a ddygwydd yn fynych, y mae eu hachos hwy yn anobeithiol. Y fenyw fwyaf wrthodedig a thruenus ar y ddaear a berthyna i'r dosparth hyn. Y mae yn ddyledswydd ar rieni i amddiffyn eu merched rhag y cyflwr truenus yma. Y maent yn gwneuthur cam mawr â hwynt os yr esgeulusant hyn. Dylai pob merch gael ei dysgu i ennill ei bywiolaeth. Y mae y cyfoethog yn gystal a'r tlawd mewn angen o'r hyfforddiad hyn. Y mae cylch tynghedfen yn chwyrndroi yn gyflym—y mae y cyfoethog yn debyg iawn o ddyfod yn dlawd, a'r tlawd yn gyfoethog. Nid ydyw bod yn gyfarwydd â gweithio yn un anfantais i'r cyfoethog, ac y mae yn anhebgorol i'r tlawd.

Cyf. CYNONWYSON.

O'r "*Christian Freeman*," Ionawr, 1877.

Manion a Hanesion.

Y PARCH. D. L. EVANS.—Yn mhlith cynnulleidfa Capel Parkyvelvet, Caerfyrddin, yn gwrando ar Mr. T. Evans, o Brifysgol Glasgow, yn pregethu ar ddydd Sul, Medi 3ydd, gwelwyd yr hen batriarch hwn—y pregethwr doniol, yr ysgrifenydd a'r ysgolor aeddfed—ac yr oedd yn edrych yn hynod o dda. Nid yw ei lygaid y peth y dylasent fod; ac yr ym yn arddcall y bydd yn gorfod myned dan weithrediad *(operation)* cyn bo hir. Nerth Duw fyddo iddo gael i fyned dan y brofedigaeth, yw dymuniad ugeiniau o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD heblaw

DANIEL AB IFAN.

CEFNCOEDYCYMMER.—Ar yr 11eg o Fedi, cynnaliodd brodyr Undodaidd y lle uchod eu Gwyl Dê flynyddol. O dan wenau sirioł "teyrn y dydd" ymgynnullodd lluaws o wyr, gwragedd a phlant, o bell ac agos, i gyfranogi o'r danteithion darparedig, a thystiolaeth pawb oedd, eu bod yr oll ag a ddymunasid. Yn yr hwyr cafwyd Cyngherdd o radd uchel, pryd y cymmerwyd y gadair, yn absenoldeb anocheladwy Uwch Gwnstabl Merthyr, gan y Parch. N. R. Williams. Er mwyn dwyn y gyngherdd yn mlaen yn llwyddiannus, cafwyd cynnorthwy gwerthfawr gan frodyr a chwiorydd o'r Cefn ac Aberdar. Diolch am eu ceinciau melus.

UN o bapyrau America sydd yn dywedyd, "Na fydded pobl Mr. Spurgeon yn falch am eu bod yn gadael eu seddau yn rhydd i ddyeithriaid un nos Sul bob tri mis, gan fod miloedd yn ein gwlad ni yn gwneuthur hyny bob nos Sul trwy'r flwyddyn." Dichon y gwyr y darllenydd am rai yn Nghymru yn gwneuthur hyny.

YR oedd un yn ddiweddar yn pregethu ar y geiriau "Mae yn rhoddi hun i'w anwylyd." Tua chanol y bregeth, sylwodd fod lluaws o'i wrandawyr yn cysgu a dywedodd: "Frodyr, mae yn anhawdd sylweddoli y cariad annherfynol sydd gan yr Arglwydd at ran fawr o'r gynnulleidfa hon."

MAE Archddiacon Phillpotts wedi gwrthod *registro* marwolaeth un o'i blwyfolion, oddieithr yn ol ei henw cyn priodi. Ei throsedd oedd ei bod ugain mlynedd cyn hyny wedi priodi ei brawd yn nghyfraith. Mae y gwr yn hawlio fod y briodas yn berffaith gyfreithlawn, gan ei bod wedi cymeryd lle mewn gwlad dramor.

CAMSYNIAD yw tybied fod culni crefyddol wedi marw. Gwrthodwyd un Miss Stokes yn ddiweddar gan Fwrdd Ysgol Staplehurst am ei bod yn *Dissenter*. Trwy

casting vote y cadeirydd y dodwyd hi o'r neilldu.

Mae y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru yn cyfrif fod eu haddoldai yn werth miliwn o bunau, ac y maent yn hawlio fod un o bob pedwar o'r trigolion yn perthyn i'w henwad.

Cawn fod yr *American Israelite* yn annghymmeradwyo y mudiad i gael dychweliad cyffredinol o'r Iuddewon i Wlad Canaan. Dywed "Gwell genym gredu fod ewyllys Duw i'r holl fyd i ddyfod yn Un Wlad Sanctaidd a'r holl hil ddynol yn un bobl sanctaidd."

Yn marwolaeth Dr. Pusey y mae yr eglwys wladol wedi colli un o'i phrif ddynion. Yr oedd efe yn un o'r prif *figures* yn y mudiad Tractaraidd rhyw ddeugain mlynedd yn ol. A wnaiff un o'n gohebwyr barotoi llith fer ar Buseyaeth erbyn ein rhifyn nesaf?

Yr oedd Mr. Spears yn anerch torf yn un o ystrydoedd Llundain yn ddiweddar pan y dywedodd iddo werth ddyfod i'r fan hono glywed rhywun yn adrodd wrth dorf arall y modd y byddai efe yn llawenhau wrth weled pechaduriaid yn poeni yn nhân uffern, "Gyfeillion," meddai Mr. S., "nis gallaswn i lawenhau wrth weled hyd y nod llygoden yn llosgi yn y tân."

Dowlais.—Dechreuodd y Parch. W. Davies ar ei waith fel gweinidog yr achos newydd yma ar y ddegfed o'r mis diweddaf.

Caerdydd.—Nos Sul, Medi 10, traddododd y Parch. Hobart Clarke, y gweinidog newydd (gynt o Boston, U.D.A.), bregeth hyawdl a chyffrous iawn oddiwrth Heb. iv. 9, "Gorphwysfa yn ol," &c. Ar y terfyn cyfeiriodd at farwolaeth yr hen batriarch rhagorol Mr. John Rees, Caerdydd, yr hwn a fu farw Awst 7. Nid oedd Mr. Rees wedi bod yn alluog i roddi un help i'r mudiad newydd yn Nghaerdydd, ond yr oedd wedi gwneuthur llawer ymdrech flynyddoedd yn ol i gychwyn achos yno, a bu lawer gwaith yn Bryste yn ymgynghori â'r diweddar Barch. W. James mewn perthynas i'r cynllun goreu i gychwyn yr achos. Bu am flynyddoedd yn dyfod i fyny yn achlysurol i'r cymmundeb i H.D.C. Aberdar.

Marwgofion.

Awst 5, 1882, Mr. Howell Morgan, un o ffyddloniaid yr Undodiaid yn Nghwm y Rhondda, yn 66 mlwydd oed. Gallwn ddweyd, a hyny yn ddiymffrost, ei fod yn un o'r rhai mwyaf ffyddlon a chyssonyn ein cynnulliadau, pa bryd bynag y buasai genym gyfarfod yn bod, a pha le bynag y buasai yn y Cwm, cyhyd ag y parhaodd yn alluog i gerdded, er ei fod gyda y pellaf o fan ein cyfarfodydd. Nid oedd gwres nag oerfel, gwlaw na hindda, byth yn ei rwystro os yn alluog i gerdded. Nid oedd wedi cael fawr addysg foreuol, ond hyny oedd wedi ei gasglu trwy hunanddiwylliant ac yn wir yr oedd wedi llwyddo yn dda yn hyny. Yr oedd yn alluog iawn fel gwleidyddwr, hefyd yr oedd wedi astudio yn dra helaeth ar wahanol hynciau crefyddol, fel ag yr oedd yn bleser ac yn adeiladaeth i fod yn ei gyfeillach. Bu hir flynyddau yn wresog gyda'r Seintiau diweddaf, ond wedi chwilio yn fanwl yr Ysgrythyrau, a oedd y pethau hyn felly, daeth i weled nad oedd y prif wirionedd yn y fan hon, ac yn ein plith ni fel Undodiaid y cafodd fwyaf o faeth a chysur i'w enaid yn ei flynyddoedd diweddaf. Genedigol oedd o'r Gwter Fawr, Sir Gaerfyrddin; ond symmudodd ei rieni i Lwydcoed, Aberdar, pan oedd ef yn ieuanc iawn, ac yno y bu am flynyddau. Yr oedd, pan yn y lle uchod, yn arferol o fyned i'r Hen-dy-Cwrdd i wrando y Parch. Thomas Evans. Symmudodd o Lwydcoed i Dowlais; yma y bu am flynyddau, ag yma y cyfarfyddodd â chydmar ei fywyd, ac y cawsant y fraint o godi wyth o blant,—tri bachgen a phump o ferched, oll wedi tyfu i'w maintioli; saith sydd yn fyw yn bresenol, pump merch a dau fachgen, y ddau yn weddw gyda eu mam, y rhai oedd yn fendith a chysur iddo ef a'i anwyl briod yn ei gystudd. Bu yn amyneddgar yn ei hir gystudd, fel ag yr oedd yn ymfoddloni i Ewyllys ei Dad nefol. Daeth efe a'i deulu i'r Ton, Ystrad, Cwm Rhondda, tua'r flwyddyn 1872; yma bu hyd nes i'r wŷs ddod oddiwrth ei Dad Nefol i'w alw i'r "wlad well a hono yn un nefol." Yr oedd yn hyfryd iawn ei glywed yn adrodd pa mor gysurus oedd yn teimlo i wynebu angeu. Dymunem fod ei weddw oedranus a'r plant oll yn

sugno eu cysuron o'r ffynnon fawr o bob dyddanwch, ffynnon lle y mae gwir dyddanwch i'w gael pan yn colli priod hoff ag anwyl, a thad tyner. Nawdd Duw fyddo gyda ei weddw a'i deulu oll.—MAB SHON.

Awst 10, yn hynod sydyn, Mary Jones, Cwmann Inn, Pencarreg, yn 43 mlwydd oed. Yr oedd ein chwaer yn naturiol yn un o deimladau tyner a charedig, ac yn brawf o hyn nid oedd eisieu ond edrych ar ruddiau cymmydogion ar ddydd ei hangladd. Claddwyd hi yn Caeronen, yn medd ei hanwyl briod, y dydd Llun canlynol, pryd y pregethodd y Parch. R. C. Jones.

Medi 7, yn 62 oed. Mr. Rees Rees, o Gellidafolwys, Penderyn. Y Mercher canlynol gwasanaethwyd yn y tŷ gan Jones, Aberdar, a chladdwyd yn Eglwys Penderyn.

Barddoniaeth.

RHAI O WIB-FEDDYLIAU Y CYSTUDDIEDIG.

Dan law y prawydd, cystudd câs,
O! Dad rho rin dy nerthol râs;
Fel na f'o'r trawsaf, chwerwaf chwyth,
Wneyd imi wan-obeithio byth.

At feddwl briw, a drylliog fron,
'R ol ceraint ac anwyliaid llon;
Ces etto rybudd dwys o'th Law,
Fod gaua' f' einioes frau ger llaw.

Os hyn sy'n ddoeth yn d' olwg Di,
Fy llusgo drwy y llaid a'r lli',
Drwy boenau a gofidiau nghyd,
O! Dad, dirwgnach b'of o hyd.

Nid cymhwys oll yw'r prenau'n siwr,
A doant heirdd geulanau'r dŵr,
Ceir coedydd ceimion lawer cant,
Fel coedydd union ger y nant.

Yr hwn f'o doeth wêl ddefnydd da,
I bawb ryw goed o'r allt a ga;
O'r syth gwna ffon, o'r cam gwna iau,—
Gwna felly ddefnydd da o'r ddau.

Rhy fynych cofiwn ddyddiau blin,
A'u stormydd traws f'ont gwedi'n trin,
Tra yr annghofiwn flwyddi'r daith,
Llawn hin-dda mwyn a hawddfyd maith.

Er tynged guchiog, leisiog, lom,
A thywydd garw, a salw siom,
Boed f' ymgais i, er gwaned yw,
I barchu dyn ac ofni Duw.

Awst 10, 1882. CYNONWYSON.

GWRAIG WRTH EI GWR.

Un o honom, anwylyd,—
Yn unig un—
Eistedda wrth wely mewn ofn a braw,
Gan ddal gafael ar law
Fydd yn oeri, yn oeri,
Wrth deimlo am y wlad sydd yr ochr draw—
Anwylyd, pa un?

Un o honom, anwylyd,—
Yn unig un—
Wrth elor y llall mewn trymder calon
A saif ac edrycha,
Ac mewn tristwch wyla,
Tra'r gwefusau gwelwon
Yn ddystaw, O, yn ddystaw—
Anwylyd, pa un?

Un o honom, anwylyd,—
Yn unig un—
Wrth fedd agored ollynga ddeigryn,
Ac aiff adre' wed'yn
I ddwyn baich bywyd ei hun,
Heb help—ei hun,—
Anwylyd, pa un?

Un o honom, anwylyd,—
Fe allai mai chwi, mai chwi,
Fydd yn myned i golli oddiwrthyf fi;
Neu fe allai, pwy wyr?
Rhyw foreu, rhyw hwyr,
Mai fy mywyd i dan y nen
Fydd y cyntaf i ddirwyn i ben;
Pa un?

Awst 19, 1882. C. L.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &C., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau :—R. E., Cardiff; J. B. L., Knutsford; E. J., Carmarthen; D. E., Ferndale; W. H., Cefncoed; D. E., Cwmdu; D. T., Cayo; S. D., Coedpare; W. L., Pontypridd; G. J., Banc; J. L., Dowlais; J. G. E., Oxford; L. L., Cardiff; D. T., Liverpool; J. J., Ty'rdref; E. C. J., Maidstone; J. D., Glynneath; J. E., Blaenffos; D. R., Risca; W. J., Cwmbach; T. J. P., Blaenddewi Fawr; S. E., Frowen; W. D., Cwmavon; D. P., St. Clears.

Dalier Sylw :—Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach na'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

Telerau :—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

TRYSORFA Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD.

	£	s.	c.
Rev. E. Ceredig Jones	0	5	0
The Unitarian Society, Rhondda Valley	0	5	0
D. Phillips, St. Clears	0	5	0
W. Evans, Treventy	0	5	0
Thos. Evans, Treventy...	0	5	0
A Friend...	0	5	0

EIN LLYFR EMYNAU.

Mae wedi myned yn brin iawn a galw mawr am dano. Gwerthwyd yr argraffiad cyntaf mewn amser byr, ac mae y galwad am dano yn cynnyddu o hyd. Yr wyf am wybod gan hyny pa mor bell mae y cyhoedd yn addfed am argraffiad newydd. Cymmered y cynnulleidfaoedd ac ereill y mater dan eu hystyriaeth. Nid wyf yn ystyried y byddai yn ddoeth i wneuthur un cyfnewidiad mawr yn yr argraffiad newydd, ond carwn gael unrhyw awgrymiadau a welo cyfeillion yn dda eu hanfon. Yr wyf yn meddwl feallai y byddai ychwanegiad o ryw 30 o emynau i blant yn dderbyniol.

Y Faner Uchel :—Mae genym rai copiau o bregeth Mr. Jenkin Ll. Jones, y rhai a ddanfonwn yn rhydd trwy y post am ddwy geiniog yr un.

YN AWR YN BAROD, PRIS SWLLT,

LLAWLYFR YR UNDODWR:

GAN

ROBERT SPEARS, LLUNDAIN,

Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, trwy ganiatad yr Awdwr, gan

DAVID EVANS.

Dylasai y llyfr cynnwysfawr hwn fod yn llaw pob ymchwiliwr am y gwirionedd. Gellir cael unrhyw nifer o hono ond anfon at *David Evans, Bodawel, Llanwnen, Carmarthen.*

D.S.—Yr elw arferol i Lyfrwerthwyr ac ereill yn cymmeryd dwsin ac uchod.